Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerk@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali

Cynhaliwyd am 7.00yh ar nos Fercher 15/07/2026

Cafodd y cyfarfod ei gynnal mewn fformat hybrid yn Ysgol Gymuned y Fali, gan alluogi'r mynychwyr i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell trwy Microsoft Teams.

**Presennol**
Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Cadeirydd) | G Browne MBE (Is-Gadeirydd) |
| C Carter | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Z Tattersall | A Walker (AW) |
| A Williams (AWs) | H Williams |
| S Williams | |

**Hefyd yn bresennol**
Cynghorydd Sir Gwilym Jones
H Hughes, Cyfieithydd
A Jones, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol
Jenny Crouch, Cyfoeth Naturiol Cymru (*gadawodd y cyfarfod am 7.10yh*)
Cynrychiolwyr o National Grid a Morgan Sindall (*gadawodd y cyfarfod am 7.37yh*):

- Poppy Lown, Tîm Cysylltiadau Cymunedol (Cavendish Consulting)
- Manon James, Tîm Cysylltiadau Cymunedol (National Grid)
- Elliott Hobbs, Rheolwr Prosiect (National Grid)
- Neil Hendry (Morgan Sindall Group)
- David Nhemachena (Morgan Sindall Group)

Minutes of Valley Community Council

Held on 7.00pm, Wednesday 15/07/2026

The meeting was held in a hybrid format at Ysgol Gymuned y Fali, allowing attendees to participate either in person or remotely via Microsoft Teams.

**Present**
Councillors:

| | |
|---|---|
| N Tuck (Cadeirydd) | G Browne MBE (Is-Gadeirydd) |
| C Carter | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Z Tattersall | A Walker (AW) |
| A Williams (AWs) | H Williams |
| S Williams | |

**Also present**
County Councillor Gwilym Jones
H Hughes, Translator
A Jones, Clerk and Responsible Financial Officer
Jenny Crouch, Natural Resources Wales (*left the meeting at 7.10pm*)
Representatives from the National Grid and Morgan Sindall (*left the meeting at 7.37pm*):

- Poppy Lown, Community Relations Team (Cavendish Consulting)
- Manon James, Community Relations Team (National Grid)
- Elliott Hobbs, Project Manager (National Grid)
- Neil Hendry (Morgan Sindall Group)
- David Nhemachena (Morgan Sindall Group)

70/2627 **Croeso a Sylwadau Agoriadol**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd ynghylch materion y Cyngor nes bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn ffurfiol

**Welcome and Opening Remarks**
The Chair welcomed everybody to the meeting.

The Chair reminded members of the importance of maintaining confidentiality regarding council matters until decisions had been formally



Arwyddwyd / Signed: [signature]
Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 16/09/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 101/2627 (cyfarfod 16/09/2026).
*Approval reference for these minutes: 101/2627 (meeting of 16/09/2026)*

a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn dilyn ddigwyddiadau diweddar.

Gofynnwyd hefyd i'r aelodau sicrhau bod y Clerc yn derbyn copïau o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd. Byddai hyn yn helpu i gynnal cofnod archwilio priodol ac yn sicrhau bod y Clerc yn cael ei hysbysu am faterion perthnasol.

Dymunodd y Cadeirydd haf dda i'r aelodau a mynegodd obaith y cânt gyfle i gael seibiant. Hysbyswyd yr aelodau fod y Cadeirydd yn gweithio gyda'r Clerc i osgoi'r angen am gyfarfod o'r Cyngor ym mis Awst, os bydd hynny'n bosibl.

resolved and published on the Council's website, following recent incidents.

Members were also asked to ensure that the Clerk receives copies of any correspondence received from members of the public. This will help maintain an appropriate audit trail and ensure that the Clerk remains informed of relevant matters.

The Chair wished members a good summer and hoped they would have the opportunity to take a break. Members were advised that the Chair was working with the Clerk to avoid the need for a Council meeting in August, if possible.

71/2627 **Derbyn Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng C.Thornhill
Cyn/Eil: WR/HW

**To accept apologies**
To accept apologies by Councillor C. Thornhill.
Prop/Sec: WR/HW

72/2627 **Derbyn Datgan Buddiant Personol a/neu Rhag farnol**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnol.

**To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest**
No personal or prejudicial interests were declared.

73/2627 **Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)**
Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)**
No members of the public were present.

74/2627 **Diweddariad Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)**
Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r PCSO ynghylch y graffiti diweddar ym Mharc Mwd.

Hysbyswyd yr aelodau fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal gweithgarwch monitro cyflymder yn y Fali gan ddefnyddio dyfais canfod cyflymder ar 15 Gorffennaf 2026.

Nodwyd y byddai'r PCSO yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

Gofynnwyd i'r aelodau hysbysu'r Cadeirydd am unrhyw faterion sy'n codi yn ystod cyfnod yr haf fel y gellid eu codi gyda'r PCSO, fel y bo'n briodol.

**PCSO Update**

The Chair reported that he had been in contact with the PCSO regarding the recent graffiti at Parc Mwd.

Members were informed that North Wales Police had undertaken speed monitoring in Valley using a speed detection device on 15 July 2026.

It was noted that the PCSO would be invited to attend the Council's September meeting.

Members were asked to notify the Chair of any issues arising during the summer period so that these could be raised with the PCSO as appropriate.

75/2627 **Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod llawn a gynhaliwyd ar 17/06/2026**

**To confirm minutes of the Full Council meeting held on 17/06/2026**



Arwyddwyd / Signed: Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 16/09/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 101/2627 (cyfarfod 16/09/2026).
*Approval reference for these minutes: 101/2627 (meeting of 16/09/2026)*

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: NT/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: NT/MSW
Agreed unanimously

76/2627 **Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Llawn Arbennig a gynhaliwyd ar 29/06/2026**

**To confirm the minutes of the Full Council Extraordinary meeting held on 29/06/2026**

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: WR/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: WR/MSW
Agreed unanimously

77/2627 **Materion yn codi o'r cofnodion**
Ymarfer Monitro Cyflymder Ffordd yr Orsaf (Cofnod 23/2627.6)

Nododd yr aelodau nad oedd yr ymarfer monitro cyflymder y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 23/2627.6 wedi cael ei gynnal eto.

Dywedodd y Cynghorydd M. Swaine Williams fod y mater yn parhau i beri pryder i drigolion lleol a gofynnodd am ddiweddariad gan y Cyngor Sir.

**Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i geisio diweddariad ynghylch y cais am fonitro cyflymder ar Ffordd yr Orsaf.

**Matters arising from minutes**
Station Road Speed Monitoring Exercise (Minute 23/2627.6)

Members noted that, as referenced in Minute 23/2627.6, the speed monitoring exercise previously requested for Station Road had not yet been undertaken.

Cllr M. Swaine Williams advised that the matter remained of concern to local residents and requested an update from the County Council.

**Action**: Clerk to contact the County Council to seek an update on the request for speed monitoring on Station Road.

78/2627 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid a Phersonel a gynhaliwyd ar 08/07/2026 ac i ystyried unrhyw argymhellion a gynhwysir ynddynt**

**To confirm the minutes of the Finance and Personnel Committee meeting held on 08/07/2026 and to consider any recommendations contained therein**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phersonél yr eitem gan nodi bod holl Aelodau'r Cyngor wedi derbyn cofnodion y Pwyllgor, Adroddiad Monitro'r Gyllideb Chwarter 1 a'r dogfennau ategol cyn y cyfarfod. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a cheisio eglurhad cyn ystyried yr argymhellion.

The Chair of the Finance and Personnel Committee introduced the item and noted that all Members had received the Committee minutes, Quarter 1 Budget Monitoring Report and supporting documentation in advance of the meeting. Members were given the opportunity to ask questions and seek clarification prior to consideration of the recommendations.

**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a Phersonel fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: GB/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: to accept the minutes of the Finance and Personnel Committee as a true and accurate record.
Prop/Sec: GB/MSW
Agreed unanimously

**Penderfynwyd**: Cymeradwyo'r 7 argymhelliad isod gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél mewn perthynas â:

**Argymhelliad 1:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig o £82,860.51 ar gyfer 2026/2027.

**Argymhelliad 2:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn y wybodaeth monitro cyllideb ar gyfer Chwarter 1 a nodi sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ar 30/06/2026.

**Argymhelliad 3:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn nodi'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2026/27, yn seiliedig ar y rhagolwg ar ddiwedd Chwarter 1.

**Argymhelliad 4:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn ac yn adolygu'r cymodiad banc a balansau'r cyfrifon banc ar 30 Mehefin 2026 ac yn cadarnhau eu bod yn cyd-fynd â chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor.

**Argymhelliad 5:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn derbyn ac yn adolygu Adroddiad Monitro Cyllideb Ynys Wen ar ddiwedd Chwarter 1 ac yn nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol.

**Argymhelliad 6:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn nodi sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar 30 Mehefin 2026.

**Argymhelliad 7:**
Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo rhodd o £60.00 i Grŵp Cymunedol y Fali tuag at blodau'r pentref ar gyfer 2026.

Cyn/Eil: WR/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** To approve the 7 recommendations below of the Finance and Personnel Committee in respect of:

**Recommendation 1:**
To recommend that the Full Council approve the revised budget of £82,860.51 for 2026/2027.

**Recommendation 2:**
To recommend that the Full Council receive the budget monitoring information for Q1 and note the Council's current financial position at 30/06/2026.

**Recommendation 3:**
To recommend that the Full Council note the projected year-end outturn position for 2026/27 as forecast at the end of Quarter 1.

**Recommendation 4:**
To recommend that Full Council receive and review the bank reconciliation and bank balances as at 30 June 2026 and confirm that they agree with the Council's accounting records.

**Recommendation 5:**
To recommend that Full Council receive and review the Ynys Wen budget monitoring information at the end of Quarter 1 and note the current financial position.

**Recommendation 6:**
To recommend that Full Council note the reserve position at 30 June 2026.

**Recommendation 7:**
To recommend that Full Council approve a donation of £60.00 to Valley Community Group towards the village flowers for 2026.

Prop/Sec: WR/EJ
Agreed unanimously

79/2627 **Cynllun Rheoli Coetir Parc Mwd**

Roedd y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad mewn perthynas â'r eitem hon ar ddechrau'r cyfarfod gan Jenny Crouch, Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn

**Woodland Management Plan for Parc Mwd**

The Council received a presentation in relation to this item at the beginning of the meeting by Jenny Crouch, Natural Resources Wales Liaison Officer for the National Forest for Wales,



Arwyddwyd / Signed: [signature]
Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 16/09/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 101/2627 (cyfarfod 16/09/2026).
*Approval reference for these minutes: 101/2627 (meeting of 16/09/2026)*

dilyn cytundeb y Cadeirydd i newid trefn y busnes at y diben hwnnw. Yn dilyn y cyflwyniad, diolchodd yr aelodau i Jenny am fynychu a gadawodd hi'r cyfarfod am 7.10yh. Ystyriwyd yr eitem wedyn ar y pwynt yma o'r agenda.

Yn ystod ei chyflwyniad rhoddodd Jenny Crouch drosolwg o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru ac amlinellodd y manteision posibl o fod yn rhan o'r rhwydwaith, gan gynnwys mynediad at gymorth, cyfleoedd hyfforddi, cyfleoedd ariannu pan fyddant ar gael, a hyrwyddo drwy sianelau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cynghorwyd yr Aelodau fod cyllid wedi'i sicrhau drwy Bartneriaeth Natur Leol Ynys Môn i baratoi Cynllun Rheoli Coetir ar gyfer Parc Mwd yn dilyn trafodaethau ac ymweliadau safle. Byddai'r cynllun yn cael ei baratoi gan Enfys Ecology heb unrhyw gost i'r Cyngor Cymuned.

Nodwyd na fyddai cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Coetir yn rhoi unrhyw rwymedigaeth ar y Cyngor i ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru, ac y gellid ystyried unrhyw benderfyniad ynghylch aelodaeth yn y dyfodol ar wahân yn dilyn trafodaeth bellach.

Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a cheisio eglurhad ar y cynigion.

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo paratoi Cynllun Rheoli Coetir ar gyfer Parc Mwd, wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Natur Leol Ynys Môn, ac awdurdodi Enfys Ecology i gyflawni'r gwaith.
Cyn/Eil: EJ/GB
Cytunwyd yn unfrydol

following agreement by the Chair to vary the order of business for that purpose. Following the presentation, members thanked Jenny for attending and she left the meeting at 7.10pm. The item was subsequently considered at this point in the agenda.

During her presentation Jenny Crouch provided an overview of the National Forest for Wales initiative and outlined the benefits of membership, including access to support, training opportunities, funding opportunities when available, and promotion through Natural Resources Wales and Welsh Government channels.

Members were advised that, following discussions and site visits to Parc Mwd, funding had been secured through the Ynys Môn Local Nature Partnership for the preparation of a Woodland Management Plan for the site. The Plan would be prepared by Enfys Ecology at no cost to the Community Council.

It was noted that approval of the Woodland Management Plan would not oblige the Council to join the National Forest for Wales network, and that any future decision regarding membership could be considered separately following further discussion.

Members were given the opportunity to ask questions and seek clarification on the proposals.

**Resolved**: To approve the preparation of a Woodland Management Plan for Parc Mwd, funded by the Ynys Môn Local Nature Partnership, and to authorise Enfys Ecology to undertake the work.
Prop/Sec: EJ/GB
Agreed unanimously

80/2627 **National Grid – Diweddariad ar waith yr Is-orsaf ym Mhenrhos a Chronfa Gymunedol Penrhos**

Roedd y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad mewn perthynas â'r eitem hon ar ddechrau'r cyfarfod gan gynrychiolwyr National Grid a Morgan Sindall, yn dilyn cytundeb y Cadeirydd i newid trefn y busnes at y diben hwnnw. Cofnodir yr eitem yma yn unol â threfn yr agenda.

**National Grid – Penrhos Substation Works and Penrhos Community Fund Update**

The Council received a presentation in relation to this item at the beginning of the meeting from representatives of National Grid and Morgan Sindall, following agreement by the Chair to vary the order of business for that purpose. The item

Ar ddechrau'r cyflwyniad, estynnodd cynrychiolwyr National Grid eu cydymdeimlad yn dilyn marwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Ken Taylor, gan gydnabod ei gyfraniad sylweddol i gymuned y Fali a'r gymuned ehangach ar draws Ynys Môn.

Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad ar Brosiect Is-orsaf Penrhos, gan gynnwys y cynnydd hyd yma, gweithgareddau adeiladu sydd ar y gweill, trefniadau rheoli traffig, a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig presennol sef Gorffennaf 2028. Darparwyd hefyd ddiweddariad ar Gronfa Gymunedol Penrhos, gan gynnwys y cynnydd a wnaed tuag at benodi gweinyddwr y gronfa a'r themâu a nodwyd drwy'r ymgysylltu diweddar â'r gymuned.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch cerbydau adeiladu yn rhwystro mynedfeydd preifat a'r cynnydd mewn traffig HGV drwy'r pentref. Gofynnwyd i'r contractwyr gael eu hatgoffa o'r terfyn cyflymder 20 mya ac i ystyried defnyddio llwybr trwy Gaergybi lle bo hynny'n bosibl. Hysbyswyd cynrychiolwyr National Grid hefyd am y bwriad i gau'r rheilffordd dros dro ym mis Ionawr 2027, a fyddai'n golygu y byddai gwasanaethau bws amgen yn defnyddio'r Cob.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y trefniadau rheoli traffig y tu allan i oriau arferol a hyd disgwyliedig cau Ffordd Gorad. Nodwyd y pryderon a godwyd gan y cynrychiolwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu presenoldeb a'u diweddariad, ac yna gadawsant y cyfarfod am 7.37yh.

**Penderfynwyd:** Nodi'r diweddariad.

is recorded here in accordance with the agenda order.

At the outset of the presentation, National Grid representatives expressed their condolences following the recent passing of Councillor Ken Taylor and acknowledged his significant contribution to the Valley community and communities across Anglesey.

The Council received an update on the Penrhos Substation project, including progress to date, forthcoming construction activities, traffic management arrangements and the current completion date of July 2028. An update was also provided on the Penrhos Community Fund, including progress towards the appointment of a fund administrator and themes identified through the recent community engagement exercise.

Members raised concerns regarding construction vehicles obstructing private driveways and increasing HGV traffic through the village. It was requested that contractors be reminded of the 20mph speed limit and that alternative routing via Holyhead be considered where possible. National Grid representatives were also advised of the planned Network Rail closure in January 2027, which would require replacement bus services to use the Stanley Embankment.

Questions were raised regarding out-of-hours traffic management arrangements and the anticipated duration of the proposed Gorad Road closure. The concerns raised were noted by the representatives.

The Chair thanked the representatives for their attendance and update, following which they left the meeting at 7.37pm.

**Resolved:** To note the update.

81/2627 **Balchder yn Eich Cymuned – Dyraniad Cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned**

Adroddodd y Clerc fod cais y Cyngor i Gronfa Balchder yn eich Cymuned wedi cael ei asesu a'i fod yn mynd ymlaen i'w ystyried gan banel penderfynu, gyda phenderfyniad yn cael ei ddisgwyl yn ystod yr wythnos ganlynol.

**Pride in Your Community – Capital Allocation for Town and Community Councils**

The Clerk reported that the Council's application to the Pride in Your Community Fund had been assessed and was progressing to consideration by a decision-making panel, with a decision expected during the following week.

Eglurodd y Clerc, pe bai'r cais yn llwyddiannus, y byddai angen derbyn a llofnodi'r cynnig grant yn brydlon er mwyn cydymffurfio ag amodau'r grant a dechrau trefnu'r gwaith yn ystod cyfnod yr haf. Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod rhestr y prosiect wedi'i diwygio yn dilyn adolygiad o'r costau, gan ychwanegu mainc a chostau ei gosod yn Ardal Gardd Goffa Ynys Wen, ynghyd â blodau ar gyfer y tri phot plannu newydd.

**Penderfynwyd**: Awdurdodi'r Clerc i dderbyn, llofnodi a dychwelyd unrhyw gynnig grant ar ran y Cyngor, trefnu a goruchwylio'r gwaith perthnasol, a threfnu taliadau cysylltiedig yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, gyda'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn awdurdodi taliadau yn ôl yr angen. Bydd y Clerc yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r aelodau ac yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd y prosiect yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

Cyn/Eil: HW/MSW
Cytunwyd yn unfrydol.

The Clerk explained that, should the application be successful, it would be necessary to accept and sign the grant offer promptly in order to comply with the grant conditions and begin organising the works during the summer period. Members were also informed that the project list had been revised following a review of costs, with the addition of a bench and installation costs for the Ynys Wen Memorial Garden area, together with plants and flowers for the three new planters.

**Resolved:** To authorise the Clerk to accept, sign and return any grant offer on behalf of the Council, arrange and oversee the associated works, and organise related payments in accordance with the Council's Financial Regulations, with payments to be authorised by the Chair or Vice-Chair as required. The Clerk will provide regular updates to members and present a progress report on the project at the Council meeting in September.
Prop/Sec: HW/MSW
Agreed unanimously.

82/2627 **Set Wag – Ward y Pentref**

Adroddodd y Clerc mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar gyfer cyfethol i'r sedd wag yw 24 Gorffennaf 2026. Hysbyswyd yr aelodau fod ffurflenni cais ar gael a'u bod wedi'u hargraffu i aelodau eu dosbarthu os oedd angen.

Nodwyd, os na fydd cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu cyn hynny, y bydd y broses o ystyried ceisiadau a gwneud penodiad drwy gyfethol yn cael ei chynnal yng nghyfarfod llawn y Cyngor ym mis Medi.

**Vacant Seat – Village Ward**

The Clerk reported that the closing date for applications for co-option to the vacant seat is 24 July 2026. Members were informed that application forms were available and had been printed for distribution by members if required.

It was noted that, should no additional meeting be arranged before then, the consideration of applications and appointment by co-option would take place at the full Council meeting in September.

83/2627 **Wi-fi i'r Pafiliwn**

Cyflwynodd y Clerc fanylion tri phecyn band eang busnes ar gyfer y Pafiliwn, gyda phob un yn cynnwys cyfleuster Wi-Fi i westeion:

• BT 100 Mbps am £29.95 y mis (cytundeb 24 mis)
• BT 150 Mbps am £37.95 y mis (cytundeb 36 mis)
• Sky 150 Mbps am £31.95 y mis (cytundeb 24 neu 36 mis)

Cynghorodd y Clerc mai pecyn Sky 150 oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian.

**Pavilion Wi-Fi**

The Clerk presented details of three business broadband packages for the Pavilion, all of which included guest Wi-Fi facilities:

- BT 100 Mbps at £29.95 per month (24-month contract)
- BT 150 Mbps at £37.95 per month (36-month contract)
- Sky 150 Mbps at £31.95 per month (24- or 36-month contract)



Arwyddwyd / Signed: [signature]
Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 16/09/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 101/2627 (cyfarfod 16/09/2026).
*Approval reference for these minutes: 101/2627 (meeting of 16/09/2026)*

Ystyriodd yr aelodau'r opsiynau oedd ar gael a thrafod y telerau contract a'r costau cysylltiedig. Gofynnodd yr aelodau hefyd am eglurhad ar y gyllideb a chawsant wybod fod pob un o'r tri phecyn o fewn y gyllideb a neilltuwyd.

Gofynnodd yr aelodau ymhellach a fyddai'r gwasanaeth band eang arfaethedig yn gallu cefnogi system CCTV ac a fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chysylltu a gweithredu'r offer CCTV.

**Penderfynwyd**: Yn amodol ar gadarnhad bod pecyn Sky 150 yn gallu cefnogi gofynion CCTV y Cyngor yn y dyfodol, neu y byddai unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu system CCTV yn fach iawn, cymeradwyodd y Cyngor brynu pecyn band eang busnes Sky 150 ar gytundeb 24 mis.

**Gweithred**: Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau'r gofynion CCTV ac unrhyw gostau cysylltiedig cyn ymrwymo i'r contract.
Cyn/Eil: WR/CC
Cytunwyd yn unfrydol.

The Clerk advised that the Sky 150 package represented the best value for money.

Members considered the available options and discussed the contract terms and associated costs. Members also sought clarification regarding the allocated budget and were advised that all three packages could be accommodated within the budget provision.

Members further enquired whether the proposed broadband service would support a CCTV system and whether any additional charges would be incurred in connecting and operating CCTV equipment.

**Resolved:** Subject to confirmation that the Sky 150 package is capable of supporting the Council's future CCTV requirements, or that any additional costs associated with operating CCTV would be minimal, the Council approved the purchase of the Sky 150 business broadband package on a 24-month contract.

**Action:** The Clerk was asked to confirm the CCTV requirements and any associated costs prior to entering into the contract.
Prop/Sec: WR/CC
Agreed unanimously

| 84/2627 | **Materion Lleol** | **Local Matters** |
|---|---|---|
| 1. | **<u>Parc Mwd – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion</u>**<br>Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau ddiweddariad ar faterion diweddar ym Mharc Mwd.<br><br>Nododd yr aelodau dri digwyddiad diweddar o fandaliaeth, gan gynnwys gwrthdrawiad traffig difrifol a achosodd ddifrod i arwydd, postyn a dwy goeden. Roedd y digwyddiad wedi'i adrodd i'r heddlu. Mynegwyd pryder ynghylch y canlyniadau posibl pe bai cerddwr neu blentyn wedi bod yn rhan o'r digwyddiad. Nodwyd fod cais am osod mesurau arafu traffig yn y safle wedi'i gynnwys yng nghais y Cyngor i Gronfa Balchder yn eich Cymuned.<br><br>Hysbyswyd yr aelodau fod graffiti wedi ymddangos ar y Pafiliwn yn ystod y penwythnos blaenorol. Roedd y mater wedi'i adrodd i'r PCSO lleol a gofynnwyd i'r Clerc adrodd y digwyddiad yn ffurfiol i Heddlu Gogledd Cymru. Adroddwyd hefyd am | **<u>Parc Mwd – report, consideration and any recommendations</u>**<br>The Chair of the Parks Committee provided an update on recent issues at Parc Mwd.<br><br>Members noted three recent acts of vandalism, including a serious road traffic collision which resulted in damage to a sign, a post and two trees. The incident had been reported to the police. Concerns were expressed regarding the potential consequences had a pedestrian or child been involved. It was noted that a request for speed ramps at the site had been included within the Council's Pride in Your Community Fund application.<br><br>Members were informed that graffiti had appeared on the Pavilion during the previous weekend. The matter had been reported to the local PCSO and the Clerk was asked to report |

graffiti ar y lloches bws ym mhen ffordd Gorad. Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer tynnu'r graffiti a deunyddiau glanhau addas.

Adroddwyd hefyd am fandaliaeth i'r offer dringo rhaffau ym Mharc Mwd. Roedd y rhaff isaf wedi'i difrodi ac bellach wedi'i thynnu. Argymhellwyd na ddylid ei disodli.

Hysbyswyd yr aelodau fod cerbyd SORN a oedd wedi'i barcio ym Mharc Mwd wedi'i symud yn dilyn trafodaethau gyda'r PCSO.

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau fod nifer fach o drigolion wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi menter Cyfeillion Parc Mwd. Trafododd yr aelodau'r angen am wirfoddolwyr i ymgymryd â gwaith chwynnu a chynnal a chadw yn ardal y triongl. Awgrymwyd y dylid cysylltu â Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir i ymchwilio i’r posibilrwydd o gynnwys cyfranogwyr Gwobr Dug Caeredin. Awgrymodd y Clerc hefyd drefnu dyddiad i ddechrau clirio'r ardal.

Pecyn Ychwanegol Cadw Cymru’n Daclus, Parc Mwd
Hysbysodd y Clerc yr Aelodau fod y Cyngor, yn dilyn ei ddyraniad grant blaenorol drwy raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (Local Places for Nature), wedi cael cynnig Pecyn Ychwanegol (Starter Top-Up Package) drwy Cadw Cymru’n Daclus, gwerth hyd at £2,000.

Yn dilyn ymweliad safle gyda chynrychiolydd o Cadw Cymru’n Daclus, cadarnhawyd y gellid defnyddio'r cyllid i osod 80m$^2$ ychwanegol o dyweirch blodau gwyllt ym Mharc Mwd. Roedd y lleoliadau arfaethedig yn cynnwys y ddwy ochr i'r prif lwybr sy'n arwain at fynedfa'r Pafiliwn ac ardal gerllaw'r ardal plannu blodau gwyllt presennol wrth ymyl y llwybr coetir.

**Penderfynwyd**: Derbyn y Pecyn Ychwanegol ac awdurdodi'r Clerc i hysbysu Cadw Cymru’n Daclus yn unol â hynny, gyda'r cyllid i'w ddefnyddio ar gyfer gosod 80m$^2$ o dyweirch blodau gwyllt ym Mharc Mwd yn y lleoliadau a nodir uchod.
Cyn/Eil: EJ/MSW
Cytunwyd yn unfrydol.

the incident formally to North Wales Police. Graffiti had also been reported at the bus shelter at the end of Gorad Road. Members discussed options for graffiti removal and suitable cleaning products.

Further vandalism was reported to the rope climbing equipment at Parc Mwd. The lower rope had been damaged and subsequently removed. It was recommended that the rope should not be replaced.

Members were advised that a SORN vehicle previously parked at Parc Mwd had been removed following discussions with the PCSO.

The Chair of the Parks Committee reported that a small number of residents had expressed an interest in supporting the Friends of Parc Mwd initiative. Members discussed the need for volunteers to undertake weeding and maintenance work within the triangle area. It was suggested that the County Council Youth Service be contacted to explore potential involvement from Duke of Edinburgh Award participants. The Clerk also suggested arranging a date to commence clearance of the area.

Keep Wales Tidy Starter Top-Up Package, Parc Mwd
The Clerk informed Members that, following the Council's previous Local Places for Nature grant allocation, the Council had been offered a Starter Top-Up Package through Keep Wales Tidy with a value of up to £2,000.

Following a site visit with a Keep Wales Tidy representative, it was confirmed that the funding could be used to install a further 80m$^2$ of wildflower turf at Parc Mwd. Proposed locations included both sides of the main path leading to the Pavilion entrance and an area adjacent to the existing wildflower planting near the woodland path.

**Resolved:** To accept the Starter Top-Up Package and authorise the Clerk to notify Keep Wales Tidy accordingly, with the funding to be used for the installation of 80m$^2$ of wildflower turf at Parc Mwd in the areas noted above.
Prop/Sec: EJ/MSW

Agreed unanimously

Valley Community Group
Nodwyd fod y cynhwysydd wedi'i symud o'r parc, er bod nifer o eitemau yn parhau i fod yn y Pafiliwn.

**Penderfynwyd:** Bod y Clerc yn ysgrifennu at y grŵp yn gofyn am waredu'r holl eitemau sy'n weddill o'r Pafiliwn erbyn mis Medi 2026.
Cyn/Eil: WR / MSW
Cytunwyd yn unfrydol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Parciau am ei waith caled, ei ymroddiad a'i ymrwymiad ym Mharc Mwd.

Valley Community Group
It was noted that the container had been removed from the park, although a number of items remained at the Pavilion.

**Resolved:** That the Clerk write to the group requesting the removal of all remaining items from the Pavilion by September 2026.
Prop/Sec: WR / MSW
Agreed unanimously.

The Chair thanked the Chair of the Parks Committee for his hard work, dedication and commitment at Parc Mwd.

2. **Pafiliwn – datblygiadau arfaethedig**

Hysbysodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau yr Aelodau ei fod wedi bod yn cydweithio â Gwynfor Williams i ddatblygu cynlluniau drafft ar gyfer gwelliannau i Adeilad y Pafiliwn ym Mharc Mwd. Roedd copïau o'r cynlluniau ar gael i'r Aelodau eu hystyried.

